# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus


| | | |
|---|---|---|
| 1 | HYSBYSIAD O BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 22 MAWRTH 2021. | 1 - 3 |

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD LLUN 22 MAWRTH 2021 AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, C. Andrews (Is-gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, W. David, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, M. P. James, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd), J. E. Roberts, a J. Simmonds.

Y Cynghorydd R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad)

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), J. Lougher (Rheolwr Chwaraeon a Datblygu), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), a Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn bresennol:

S. Lowe (Clwb Rygbi Penallta), N. Sargent (Grŵp ‘Save Ystrad Green Spaces’), A. Hurst (Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod), J. Rogers (Rhiant-lywodraethwr Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon), y Cynghorydd A. Whitcombe (Aelod Ward Abercarn) ac R. Instone (Trigolyn Cwmcarn).

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr: C. Cuss, D. T. Hardacre a Mrs G. D. Oliver.

Aelodau Cyfetholedig: D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 2. | Datganiadau o Fuddiant. | Eitem Agenda Rhif 7 – Datganodd y Cyng. W. David fuddiant personol a rhagfarnus gan mai perthynas deuluol a ffrind agos yw Is-lywydd Clwb Rygbi Penallta; hefyd mae ei fab wedi ysgrifennu llythyr yn ategu barn rhai o'r gwrthwynebwyr. Gadawodd y Cyng. W. David y cyfarfod pan drafodwyd yr eitem. | Dd/B |
| 3. | Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021 fel cofnod cywir. | 13 o blaid<br>0 yn erbyn<br>2 Ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chafodd unrhyw faterion eu galw i mewn. | Dd/B |
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | Yn amodol ar gynnwys adroddiad ychwanegol ynghylch Cwricwlwm Newydd Cymru, PENDERFYNWYD y dylid cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg fel y mae wedi'i atodi i bapurau'r cyfarfod ar wefan y Cyngor. | 16 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 Ymatal |
| 6. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Dd/B |
| 7. | Band B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif – Adroddiad Gwrthwynebu Statudol ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod | Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig i ddiwygio'r argymhellion i ohirio'r penderfyniad er mwyn ei adolygu ymhellach, gan nad oes unrhyw gostiadau ar gyfer ysgol newydd. Datganwyd bod y cynnig wedi methu ar ôl pleidleisio drwy alw enwau ar lafar.<br><br>Am y rhesymau a roddir yn adroddiad y Swyddogion, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion ynddo. Cymeradwywyd hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol ar ôl pleidleisio drwy alw enwau ar lafar.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg yn:<br><br>a) Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau cyn i'r Cabinet eu hystyried ar 7 Ebrill 2021.<br><br>b) Cymeradwyo'r mesurau lliniaru arfaethedig a'r cynnig i ariannu'r gost amcangyfrifedig o £300,000 o gyllideb Cyfraniad Refeniw i Wariant Cyfalaf o Gyllid Amrywiol 2020/21. | 6 o blaid<br>8 yn erbyn<br>0 Ymatal<br><br><br><br><br><br><br>8 o blaid<br>6 yn erbyn<br>0 Ymatal |
| | Atal y rheolau sefydlog | Atal y rheolau sefydlog er mwyn caniatáu i'r cyfarfod barhau am fwy na 3 awr. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio. | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 Ymatal |
| 8. | Band B y Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif – Adroddiad Gwrthwynebu Statudol ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon | Am y rhesymau a roddir yn adroddiad y Swyddogion, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion ynddo. Cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio. | 14 o blaid<br>1 yn erbyn<br>0 Ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg yn:<br><br>a) Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau cyn i'r Cabinet eu hystyried ar 7 Ebrill 2021. | |
| 9. | Monitro Cyllideb 2020/21 (Cyfnod 9). | Am y rhesymau a roddir yn adroddiad y Swyddogion, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion ynddo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio.<br><br>PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi nodi cynnwys yr adroddiad ac ARGYMHELLWYD i'r Cabinet:-<br><br>a) Defnyddio £472,000 o Gronfeydd Cyfalaf wrth Gefn wedi'u Clustnodi y Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer ail ddosbarth lloeren yn Ysgol Gyfun Cenydd Sant ar gyfer Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod a datblygu Parc Virginia ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid a'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol fel y manylir yn Adran 5.5 o'r adroddiad. | 14 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 Ymatal |

**Cylchrediad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Iau 25 Mawrth 2021.